# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Sara Jones**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygnor a gynhaliwyd hybrid yng Nghanolfan Cefnfaes ac yn rhithiol dros Zoom
**Nos Iau 26ed o Mawrth 2026 am 19:00**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Catrin Wager

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Dyfrig Jones

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Paul Rowlinson
Y Cynghorydd Huw Jones

1. **Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Catrin Wager**..

Ymddiheuriadau – Y Cynghorydd Rheinallt Puw, Y Cynghorydd Bleddyn Williams, Y Cynghorydd Einir Williams, Y Cynghorydd Michael Williams

2. **Datgan diddordeb:** Datganodd y cynghorwr Paul Rowlinson mewn perthynas â phwynt 6 – Paneli Haul, Gorffwysfan ar yr agenda.

3. **Materion brys (gyda chaniatâd y Cadeirydd)**

Y Cynghorydd Ann Williams – Mae dŵr yn llifo o draen ar llwybr cyhoeddus Stryd y Ffynnon. Y Clerc i ganfod pwy sydd yn gyfrifol am y draen.

4. **Cadarnhau cywirdeb cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Y Clerc i gywiro y canlynol o gonfnodion mis Chwefror:
- Cywiro gair 'Cyngorwyr' i 'Cyngorwr'
- Y Clerc i gywiro datganiadau diddordeb yn erbyn y rhoddion, y clerc wedi rhoi enw cynghorydd yn yr lle angywir.

5. **Materion yn codi o'r Cofnodion:**

**Bws Lloches Bontŵr –** Mae'r Clerc wedi bod mewn cysylltiad â chwmni lleol, *Cormac*, i wneud y safle'n ddiogel. Mae cwmni Cormac yn symud ymlaen gyda gwaith i wella'r safle.

## 6. Paneli Haul - Gorffwysfan

Y Cynghorydd Paul Rowlinson wedi gadael yr ystafell oherwydd datgan diddordeb.
Mae'r clerc wedi derbyn dogfennau gan Dafydd Meurig, Ynni Ogwen. Y Clerc i anfon ebost yn gofyn am ymateb efo rhai pwyntiau: 32.d yn deud fod angen caniatâd Ynni Ogwen os bod angen unrhyw newid yn yr adeilad, efallai bod modd newid 'adeilad' i 'tô'
Y Cynghorwyr yn gofyn os oes modd i gael gwybod faint bysa nhw yn arbed bob mis wrth gael y paneli solar ar y Gorffwysfan.

## 7. Lwfans Blynyddol

Y Clerc wedi derbyn y ffurflenni gan sawl cynghorydd ond angen i pawb ei gwblau.

## 8. Maes Parcio Gerlan

Pryniant y tir ddim heb fynd drwodd eto. Y Cynghorydd Catrin Wager am gysylltu efo'r twrna i gweld os mae yna rhywbeth mae y Cyngor yn gallu helpu gyda.
Y Clerc wedi ysgrifennu ebost i Partneriaeth Ogwen i gael pris am cynllun busnes. Mae y Cynghorydd Dyfrig Jones am gal mewn cyswllt efo Partneriaeth Ogwen. Y Clerc i gael sicrwydd gan y PWLB i weld os mae yna posib i gael benthyg mwy ganddynt i orffan y prosiect.

## 9. Gohebiaeth

Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr **"Crynodeb o Ohebiaeth – Mawrth 2026"**.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **8.1** | Un Llais Cymru | Aelodaeth Un Llais Cymru 2026-27 | Mae'r cyngor yn cytuno maent angen ail ymaelodi |
| **8.2** | Cyngor Gwynedd | Cau Ffordd Lôn Gerlan | Dim sylwadau |
| **8.3** | Cyngor Gwynedd | Cau Ffordd Garneddwen | Dim sylwadau |
| **8.4** | Cyngor Gwynedd | Cau Ffordd Stryd Fer | Dim sylwadau |

## 10. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio

| Rhif Cais | Lleoliad | Disgrifiad | Penderfyniad |
|---|---|---|---|
| **C26/0007/13/DT** | 4 Stryd Hir, Gerlan, Bethesda | Codi estyniad deulawr ar gefn yr eiddo | Dim gwrthwynebiad |

## 11. Taliadau Mawrth 2026

| Talai | Ffurf | Manylion | Swm |
|---|---|---|---|
| John Wyn Jones | BACS | Cyflog Mawrth 2026 | £423.30 |
| Cyngor Gwynedd | BACS | Cost Cynnal Clwb Ieuienctid | £3093.59 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Partneriaeth Ogwen | BACS | Anfondeb Treth y Llyfrgell | £4945.83 |
| Un Llais Cymru | BACS | Aelodaeth Blynyddol | £1017 |

**10. Crynodeb Llais Ogwan**

Penderfynwyd a bydd Y Cynghorydd Mary yn cynnwys rhoid:

Gwahodd syniadau am y Grant ac gofyn i'r darllenwyr am syniadau i defnyddio y pres grant.

Rhoid bwrdd dehongli newydd yn sydd yn danogos enwau'r mynyddoedd yn Plas Ffrancon.